Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

Papur Ymgynghori

Rhagymadrodd

1. Ar 12 Rhagfyr 2007, bu'r Dr Dai Lloyd AC, Aelod Rhanbarthol Plaid Cymru dros Dde-orllewin Cymru, yn llwyddiannus yn y trydydd balot i'w gynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru am yr hawl i ofyn caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno Mesur Cynulliad arfaethedig Aelod.

2. Cynnig llwyddiannus y Dr Lloyd oedd gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried yr effaith y byddai gwerthu caeau chwarae yn ei chael ar gymunedau lleol, o ran iechyd, lles a chynhwysant cymdeithasol, a hynny cyn iddyn nhw fwrw ymlaen â gwarediad.

3. Ar 6 Chwefror 2008, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddiwrthwynebiad, y câi'r Dr Lloyd gyflwyno'i Fesur arfaethedig. Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol a Chynghorau Cymuned) i baratoi datganiadau o'r effaith pan fyddan nhw'n cynnig cael gwared ar gaeau chwarae ac ymgynghori yn eu cylch. Mae paragraffau 27 i 33 isod, ynghyd â Nodiadau Esboniadol y Mesur arfaethedig, yn Atodiad 1, yn nodi manylion darpariaethau'r Mesur arfaethedig.

4. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn eich gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y Mesur arfaethedig drafft cyn iddo gael ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2008 at ddibenion gwaith craffu. Gan hynny, bydd yr ymatebion i'r papur ymgynghori yn bwydo'r gwaith i baratoi'r Mesur arfaethedig terfynol cyn i hwnnw gael i gyflwyno.

5. Mae cwestiynau penodol wedi'u nodi yn Atodiad 2 i'r papur hwn ond fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ar unrhyw rai o'r cynigion yn y Mesur arfaethedig.

Y Cefndir Deddfwriaethol

6. Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cynnig hwn wedi'i nodi yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae honno'n cynnig y mecanwaith ar gyfer ychwanegu at bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n caniatáu iddo wneud Mesurau Cynulliad pan fo ganddo'r pŵer (sef pŵer y cyfeirir ato fel 'cymhwysedd deddfwriaethol' y Cynulliad Cenedlaethol) i wneud hynny.

7. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu y gall Mesurau Cynulliad arfaethedig gael eu cyflwyno gan Aelodau Cynulliad y meinciau cefn.

8. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn i'w weld ym Mater 12.5 (b) o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*:-

   Matter 12.5

   (b) the making of arrangements by relevant Welsh authorities for the involvement in the exercise of their functions of people who are likely to be affected by, or interested in, the exercise of the functions.

Y Cefndir

Gordewdra a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru

9. Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS), yn ei *Health Needs Assessment Report 2006*, yn datgan bod gweithgarwch corfforol nid yn unig yn cyfrannu at les, ond ei fod hefyd yn hanfodol ar gyfer iechyd da. Mae gan bobl sydd â ffordd gorfforol weithgar o fyw ryw 50 y cant yn llai o risg o ddatblygu clefyd coronaidd y galon (CHD), strôc a diabetes math 2 o'u cymharu â'r rhai sydd â ffordd eisteddog o fyw, ac maen nhw'n gallu lleihau rhyw 20-30 y cant ar eu risg o farw'n rhy gynnar. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn gysylltiedig hefyd â lleihau'r risg o ordewdra, osteoporosis a chanser y colon ac â gwell iechyd meddwl a gwell gallu i weithredu mewn oedolion hŷn.

10. Ar sail eu Mynegai Màs Corff, mae canfyddiadau *Arolwg Iechyd Cymru 2005/06* yn awgrymu bod 56 y cant o bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew a bod 19 y cant yn ordew [1].

11. Mae'r *Astudiaeth Ryngwladol ar Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant o Oedran Ysgol* yn astudiaeth ymchwil ar draws cenedlaethau a gafodd ei chynnal mewn cydweithrediad â swyddfa ranbarthol Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru, sy'n deillio o'r taldra a'r pwysau a roddodd y plant eu hunain, i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1. Canran y plant 13 a 15 oed sydd bron yn ordew ac yn ordew.

	Bechgyn		Merched	
Oedran	Bron yn ordew	Gordew	Bron yn ordew	Gordew
13 oed	17.8	15.1	4.4	1.7
15 oed	16.6	14.4	5.6	3.0

Ffynhonnell: Astudiaeth Ryngwladol ar Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant o Oedran Ysgol 2001/2

12. Mae canlyniadau *Arolwg Iechyd Cymru 2005/6* yn dangos mai 29 y cant a gyrhaeddodd yr isafswm sy'n cael ei argymell ar gyfer gweithgarwch corfforol cymedrol, sef 30 munud, bum gwaith yr wythnos. Mae hyn yn cael ei

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Arolwg Iechyd Cymru 2005/06, 2007 (tabl 4.9)

ddadansoddi yn 36 y cant yn achos dynion a 23 y cant yn achos menywod. Mae'r *Adroddiad ar Asesu Anghenion Iechyd 2006* yn datgan ymhellach:

> The historically high prevalence of many of these chronic diseases in Wales, particularly in those areas of worst socio-economic deprivation, coupled with high levels of sedentary behaviour, have brought the physical activity agenda to the forefront of both the public health and political agendas in recent years. The evident downward trends in activity levels are one of the principal reasons for the conversely upward trends in obesity. With physical activity being one half of the energy balance equation, it follows that this must continue to be an important focus for national action.

13. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad amryw o strategaethau a mentrau sydd wedi'u hanelu at hybu bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol er mwyn lleihau gordewdra a hybu byw'n iach a lles.

14. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio a gweithredu strategaeth ar gyfer iechyd a lles y boblogaeth yn yr ardal, a rhoi sylw i'r strategaeth honno wrth arfer eu swyddogaethau. Dylai'r strategaeth fynd i'r afael â'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

    - cyflwr iechyd a lles y boblogaeth leol;
    - anghenion y boblogaeth leol o safbwynt iechyd a lles;
    - y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles i'r boblogaeth leol;
    - bylchau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles ar gyfer y boblogaeth leol;
    - risgiau i iechyd a lles y boblogaeth leol;
    - ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth leol gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

15. Mae ymrwymiadau *Cymru'n Un,* o waith trydedd Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys yr addewid *Annog Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol*, er mwyn gwella iechyd. Cyn hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, *Dringo'n Uwch, a Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf*. Nid ym maes polisi chwaraeon yn unig y mae gan y Llywodraeth fentrau; mae ymarfer corff a bwyta'n iach hefyd yn cael eu hybu drwy fentrau ym maes iechyd y cyhoedd ac addysg. Er enghraifft, mae *Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc* yn annog plant a phobl ifanc i fod yn fwy gweithgar yn gorfforol.

16. Mae targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer enillion iechyd, er mwyn lleihau nifer y marwolaethau o ganser a chlefyd coronaidd y galon yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gweithgarwch corfforol, sef:

- Cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol cymharol ddwys oedolion am 30 munud o leiaf bum gwaith yr wythnos un pwynt canran y flwyddyn o leiaf dros yr ugain mlynedd nesaf.
- Bydd pob plentyn oed ysgol gynradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol am o leiaf 60 munud, bum gwaith yr wythnos.
- Bydd o leiaf 90 y cant o fechgyn a merched oed ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol am 60 munud, bum gwaith yr wythnos.

17. Mae caeau chwarae yn gyfleuster hygyrch lle gall gweithgareddau corfforol ddigwydd, boed fel chwaraeon wedi'u trefnu ynteu fel cerdded a chwarae. Gallai hybu gweithgarwch corfforol o oedran cynnar fod yn hanfodol i atal gordewdra yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae caeau chwarae yn cyfrannu hefyd at les ac amgylchedd cyffredinol y gymdogaeth. Mae Meysydd Chwarae Cymru yn amcangyfrif bod rhyw 17 o gaeau chwarae o amgylch Cymru mewn perygl o gael eu gwerthu ar hyn o bryd.

Y Polisi Cyfredol

18. Mae *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* yn diffinio man agored fel tir sydd wedi'i osod fel gardd gyhoeddus, neu sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden y cyhoedd, neu dir sy'n fynwent segur.

19. Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau lleol yn rhydd i gael gwared ar y tir sydd ganddyn nhw mewn modd sy'n addas yn eu barn nhw. Er hynny, o dan adran 123 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972* dydy'r awdurdodau lleol ddim yn cael gwaredu mannau agored oni bai eu bod yn mynd ati yn gyntaf i gyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'u bwriad i wneud hynny am ddwy wythnos yn olynol mewn papur newydd lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau. Mae cyfyngiadau tebyg yn gymwys i Gynghorau Cymuned.

20. Wrth waredu caeau chwarae, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth ganllawiau cynllunio. Dylen nhw roi sylw i Bennod 11 o *Polisi Cynllunio Cymru* a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16, *Chwaraeon a Hamdden*.[2] Mae'r olaf yn dweud hyn:

> Mae i fannau agored werth positif at ddibenion hamdden. Dylai'r awdurdodau lleol ystyried sut y defnyddir y safleoedd sy'n perthyn iddynt. Ni allant gael gwared ar fannau agored na'u neilltuo at ddiben arall, oni bai eu bod yn gyntaf yn cyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i wneud hynny am bythefnos o'r bron mewn papur newydd lleol ac yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau.

21. Mae ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar gaeau chwarae yn gallu cael eu "galw i mewn" gan Lywodraeth y Cynulliad i gael eu penderfynu, ond dim ond os yw'r cais yn codi materion o fwy na phwysigrwydd lleol. Fel arall, yr awdurdod cynllunio lleol yn unig sy'n ymdrin â'r cais.

22. Mae TAN 16 yn dweud hefyd:

[2] Mae TAN 16 yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd.

> Mae meysydd chwarae yn arbennig o arwyddocaol am eu gwerth yn nhermau hamdden ac amwynder ac, yn y trefi a'r dinasoedd, am eu cyfraniad at yr amgylchedd trefol. Pan na fydd mo'u hangen at eu diben gwreiddiol, gallant fodloni'r angen cynyddol am dir hamdden yn y gymuned ehangach. O gofio'u gwerth ar gyfer hamdden ac amwynder, dylid archwilio unrhyw bosibilrwydd y bydd meysydd chwarae ysgolion yn cael eu gwaredu, er mwyn cadarnhau na fydd angen y safleoedd yn y tymor hirach i'w defnyddio gan yr ysgol neu'r gymuned.
>
> Gall darparu cyfleusterau ag arwynebau synthetig neu arwynebau eraill a all ddygymod ā defnydd dwys helpu i fodloni'r galw am gyfleusterau chwaraeon. Er hynny, nid oes modd iddynt gymryd lle meysydd chwarae glas yn uniongyrchol. Er y gallant dynnu'r pwysau oddi ar feysydd chwarae a neuaddau chwaraeon eraill, anaml y maent yn cyfiawnhau rhyddhau meysydd chwarae glas at ddibenion eraill. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i union swyddogaeth arwynebau artiffisial o ran chwaraeon. Yn aml bydd angen rhoi blaenoriaeth i fathau dwys o ddarpariaeth megis darpariaeth aml-gamp sy'n cyfuno cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan.

23. Mae *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995* yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i'r awdurdodau cynllunio roi gwybod i Gyngor Chwaraeon Cymru (SCW) am geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar "gae chwarae", ac mae'n diffinio'r rhain fel meysydd chwarae sydd wedi'u marcio, gan gynnwys ardaloedd gor-redeg, o fwy na 0.4 hectar o ran eu maint. Yn sgil yr ymarfer ymgynghori *Changes to the Development Control System* (Gorffennaf 2006), mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu diwygio'r gofyniad bod rhaid ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar gaeau chwarae a mannau agored.

24. Mae Gorchymyn 1995 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r awdurdodau cynllunio ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar dir

    (i) sydd wedi'i ddyrannu'n "gae chwarae" mewn cynllun datblygu neu mewn dogfen sy'n diwygio cynllun, neu

    (ii) sydd wedi'i ddefnyddio fel "cae chwarae" o fewn y pum mlynedd diwethaf.

25. O ran caeau chwarae ysgolion, mae'r safonau y mae'n rhaid i fangreoedd ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol gydymffurfio â nhw wedi'u nodi yn *Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999*. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i leiafsymiau o arwynebedd ar gyfer "caeau chwarae gemau tîm" gael eu darparu ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sydd wedi cyrraedd 8 oed.

26. Mae adran 77 o *Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998* yn atal awdurodau lleol a chyrff llywodraethu yn Lloegr rhag cael gwared ar gaeau chwarae ysgolion, neu newid eu defnydd, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Er hynny, **dydy'r gofyniad hwn ddim yn gymwys yng Nghymru**, er bod rhaid i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghymru sicrhau cydsyniad y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau cyn cael gwared ar gaeau chwarae.

Diben y Mesur arfaethedig

27. Bydd *Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol ymgynghori â'r gymuned leol cyn cael gwared ar gaeau chwarae. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i warediad arfaethedig a'i effaith ar iechyd a lles y gymuned leol, cyn iddo fynd yn ei flaen.

28. Mae adran 2 o'r Mesur arfaethedig yn darparu diffiniadau o "gwaredu", "awdurdod lleol", "cae chwarae" a "maes chwarae". Yn benodol, mae'r diffiniadau o "cae chwarae" a "maes chwarae" wedi'u diffinio yn nhermau arwynebedd a gweithgareddau chwaraeon penodol.

29. Mae adran 3 o'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurodau Lleol gynhyrchu datganiad o'r effaith a fydd yn nodi natur y gwarediad arfaethedig ac yn disgrifio'i effaith ar y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer caeau chwarae yn y gymdogaeth; iechyd a lles y trigolion lleol a'r Strategaeth leol ar gyfer Iechyd a Lles. Rhaid i'r datganiad o'r effaith fod ar gael i'w archwilio am gyfnod o bedair wythnos a rhaid i hysbysiadau gael eu gosod yn y wasg leol.

30. Mae adran 4 o'r Mesur arfaethedig yn darparu bod rhaid i'r Awdurodau Lleol gymryd camau rhesymol i ddod â'r datganiad o'r effaith i sylw'r ymgynghoreion statudol sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig ac unrhyw grwpiau eraill a all fod yn defnyddio'r caeau. Yna mae'n rhaid iddyn nhw ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno (adran 5).

31. Yr ymgynghoreion statudol sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen yw: Meysydd Chwarae Cymru, Cymdeithas y Mannau Agored, Chwarae Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru; unrhyw glwb chwaraeon, cymdeithas neu gorff arall sy'n defnyddio'r cae chwarae yn rheolaidd; byrddau iechyd lleol; Age Concern, Barnados, Sefydliad Prydeinig y Galon; Comisiynydd Plant Cymru, fforymau ieuenctid lleol a chynghorau ysgol; canghennau lleol o Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched.

32. Mae adran 6 o'r Mesur arfaethedig yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu cymryd os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaredu neu beidio. Os yw'n penderfynu bwrw ymlaen, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi datganiad sy'n crynhoi unrhyw sylwadau a ddaeth i law a threfnu ei fod ar gael i'w archwilio a'i gyhoeddi ar ei wefan.

33. Mae adran 7 o'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd (y cyfeirir ato fel "cyfarwyddyd stopio") i'r Awdurdod Lleol i atal cae chwarae rhag cael ei waredu os ydyn nhw wedi cael sylwadau sy'n honni nad yw'r Awdurdod Lleol wedi cydymffurfio â gofynion adrannau 3 i 6 o'r Mesur arfaethedig. Mae'r cyfarwyddyd stopio hwn yn cael ei dynnu'n ôl os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod yr Awdurdod Lleol wedi cydymffurfio'n

sylweddol â'r Mesur. Er hynny, os yw'n ymddangos bod yr Awdurdod Lleol heb gydymffurfio â gofynion y Mesur, mae'r cyfarwyddyd stopio hefyd yn cael ei dynnu'n ôl ac mae cyfarwyddyd newydd (y cyfeirir ato fel "cyfarwyddyd adfer") yn cael ei roi sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol gymryd unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n sylweddol â'r Mesur.

Costau

34. Yr Awdurdodau Lleol yn bennaf fyddai'n ysgwyddo'r costau a fyddai'n deillio o'r Mesur arfaethedig hwn, a hynny wrth baratoi'r datganiad o'r effaith a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ac wrth roi cyhoeddusrwydd i'w benderfyniad ar ôl yr ymgynghori wedyn.

Opsiynau

35. Nid y Mesur arfaethedig yw'r unig opsiwn wrth ystyried sut mae sicrhau bod cyfleusterau lleol ar gael er mwyn i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored.
36. Yr opsiwn cyntaf yw gwneud dim. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, fe fyddai ymgynghori yn gymwys o dan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995* (gweler paragraffau 23 a 24 uchod) ac o ran gwaredu fe fyddai'r sefyllfa'n parhau yr fath ag a geir yn *Neddf Llywodraeth Leol 1972* (gweler paragraff 19 uchod). Byddai hyn i bob pwrpas yn caniatáu i gaeau chwarae gael eu gwaredu heb i asesiad llawn gael ei wneud o'r effaith ar iechyd a lles y gymuned leol.
37. Yr ail opsiwn yw i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fonitro ac adolygu'r canllawiau i'r Awdurdodau Lleol ym Mhennod 11 o *Polisi Cynllunio Cymru* a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16. Mae'r olaf, sydd wedi'i ddiwygio ac sydd i'w ailgyhoeddi cyn hir, yn rhoi cyngor ar bynciau y mae'r awdurdodau cynllunio'n dod ar eu traws ym maes chwaraeon, hamdden a mannau agored. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol roi ystyriaeth i ffactorau sy'n ymwneud â gwaredu caeau chwarae heb fynnu bod rhaid cael asesiad llawn o'r effaith.
38. Er hynny, byddai'r trydydd opsiwn, fel y mae wedi'i nodi yn y Mesur arfaethedig, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol baratoi asesiad o effaith y gwaredu ar iechyd a lles y gymuned; byddai'n cynnwys proses ymgynghori hirach ac yn enwi ymgynghoreion statudol. Byddai hynny'n golygu gwaith craffu mwy cadarn ar yr opsiynau pan fyddai gwaredu caeau chwarae yn cael ei ystyried.

Crynodeb

39. Mae'r Mesur yn darparu dull diogelu newydd sy'n ychwanegol at y sefyllfa sydd ohoni. Byddai'n gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu effaith gwaredu cae chwarae ar y gymuned leol ac ymgynghori â'r bobl hynny sy'n defnyddio'r caeau chwarae'n fwyaf aml. Y nod wrth wraidd y Mesur arfaethedig yw sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i iechyd a lles cymunedau lleol drwy sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer gweithgarwch corfforol.

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

Adran 1: Cyfyngiad ar waredu caeau chwarae gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru

1. Mae is-adran (1) yn gosod nifer o amodau ar yr awdurdodau lleol y mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â nhw cyn cael bwrw ymlaen i waredu cae chwarae. Mae'r amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw yn cynnwys:

- paratoi datganiad o'r effaith a gofynion ynghylch hysbysebu mewn cysylltiad â'r Datganiad o'r Effaith (adran 3);
- ymarfer ymgynghori (adran 4);
- ystyried y sylwadau a allai ddod i law'r awdurdod lleol ar ôl yr ymarfer ymgynghori (adran 5); a
- chyhoeddi hysbysiad sy'n nodi a yw'r awdurdod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaredu, yng ngoleuni'r sylwadau sydd wedi dod i law (adran 6).

2. Oni bai bod y gwaredu'n digwydd o fewn 12 mis ar ôl y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf, cymerir bod yr awdurdod lleol heb gydymffurfio â'r amodau uchod (is-adran (2)).

Adran 2: Y prif ddiffiniadau

3. Mae'r adran hon yn cynnwys y pedwar prif ddiffiniad yn y Mesur, sef:

- "gwaredu" – unrhyw waredu heblaw caniatáu tenantiaeth am lai na saith mlynedd;
- "awdurdod lleol" – cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod Parc Cenedlaethol neu gyngor cymuned (gan gynnwys cyngor cymuned sydd wedi'i ddynodi'n gyngor tref);
- "cae chwarae" a "maes chwarae" – sydd wedi'u diffinio yn nhermau eu harwynebedd a gweithgareddau penodol mewn chwaraeon.

Adran 3: Dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi datganiad o'r effaith

4. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i baratoi datganiad o'r effaith a fydd yn nodi natur y gwarediad arfaethedig ac yn disgrifio effaith y gwarediad arfaethedig ar y canlynol:-

- y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer caeau chwarae yn y gymdogaeth (sydd wedi'i diffinio yn is-adran (3) fel yr ardal neu'r ardaloedd y byddai'r rhai sy'n debyg o ddefnyddio'r cae chwarae pe bai'n parhau i fod ar gael yn dod ohoni neu ohonyn nhw;
- iechyd a lles trigolion y gymdogaeth; ac
- unrhyw strategaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei pharatoi o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (strategaethau i hybu lles).

5. Mae'r datganiad o'r effaith hefyd yn cael cymryd i ystyriaeth unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer caeau chwarae y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei sicrhau adeg y gwarediad arfaethedig neu cyn yr adeg honno (is-adran (4)).

6. Mae isadrannau (5)-(10) yn ymdrin â'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gwneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r datganiad o'r effaith.

7. Yn benodol, mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad sy'n gorfod:

- nodi'r gwarediad arfaethedig;
- nodi'r "cyfnod adneuo" (sef y cyfnod pryd y mae'r datganiad o'r effaith ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol (is-adran (5)(a) ac is-adran (7));
- datgan ble a pha bryd y gall y datganiad o'r effaith gael ei archwilio yn ystod y cyfnod adneuo;
- rhoi gwybod i'r cyhoedd fod ganddyn nhw hawl, yn ystod y "cyfnod ymgynghori", i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod mewn perthynas â'r gwarediad arfaethedig a thrwy ba fodd y cân nhw wneud hynny.

8. Mae is-adran (8) hefyd yn darparu bod rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi am o leiaf ddwy wythnos o'r bron mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth.

9. Mae'n rhaid i'r cyfnod adneuo barhau am o leiaf bedair wythnos (is-adran (5)(a)); mae is-adran (9) yn darparu na chaiff ddod i ben lai na phum wythnos ar ôl y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf.

10. Mae is-adran (10) yn diffinio'r "cyfnod ymgynghori" fel y cyfnod sy'n dechrau ar yr un diwrnod â'r cyfnod adneuo ac sy'n dod i ben bythefnos ar ôl diwedd y cyfnod adneuo.

Adran 4: Dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ymgynghori

11. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ymgynghori â phob un o'r cyrff sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig, ac i ymgynghori â chyrff eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n debyg o ddefnyddio'r cae chwarae.

12. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Atodlen o dro i dro.

Adran 5: Dyletswydd a disgresiwn yr awdurdodau lleol i ystyried sylwadau

13. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried unrhyw sylwadau am y gwarediad arfaethedig sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mae is-adran (2) yn rhoi disgresiwn i'r awdurdod lleol i ystyried unrhyw sylwadau o'r fath sy'n dod i law ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

Adran 6: Dyletswydd yr awdurdodau lleol i gyhoeddi

14. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gyhoeddi hysbysiad, mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth, ynglŷn â'i benderfyniad a ddylai fwrw ymlaen â'r gwaredu neu beidio.

15. Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaredu, o dan is-adrannau (2) i (5), mae'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i baratoi "datganiad penderfynu" a threfnu bod hwnnw ar gael i'w archwilio ac i gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan y gall y datganiad penderfynu gael ei archwilio, ble y gall gael ei archwilio a threfnu bod y datganiad penderfynu ar gael i'w archwilio am gyfnod di-dor o ddim mwy na phedair wythnos. Mae yna ofynion ynglŷn â chyhoeddi'r datganiad penderfynu.

16. Mae'n rhaid i'r datganiad penderfynu grynhoi'r sylwadau y mae'r awdurdod wedi'u hystyried o dan adran 5 a rhaid hefyd iddo nodi rhesymau'r awdurdod dros fwrw ymlaen â'r gwarediad (neu â'r gwarediad arfaethedig diwygiedig).

17. Mae is-adran (6) yn darparu na chaiff yr awdurdod waredu'r cae chwarae nes bod y cyfnod ar gyfer archwilio'r datganiad penderfynu wedi dod i ben.

Adran 7: Cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru

18. Pan fo Gweinidogion Cymru'n cael sylwadau bod awdurdod lleol yn bwriadu bwrw ymlaen â gwarediad a bod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Mesur arfaethedig, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol, (y cyfeirir ato fel "Cyfarwyddyd stopio") i beidio â bwrw ymlaen â'r gwaredu ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

19. Ar ôl i gyfarwyddyd stopio gael ei roi, os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar ôl iddyn nhw ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law, fod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Mesur, mae'n rhaid iddyn nhw dynnu'r cyfarwyddyd stopio yn ôl a rhoi cyfarwyddyd arall, y cyfeirir ato fel "cyfarwyddyd adfer". Mae hwn yn gyfarwyddyd i'r awdurdod i gymryd camau i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio yn sylweddol â gofynion y Mesur.

20. Mae awdurdod y mae Gweinidogion Cymru'n rhoi cyfarwyddyd adfer iddo yn gorfod cydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

Adran 8: Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

21. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei diwygio fel na fydd unrhyw warediad gan gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu Barc Cenedlaethol ar dir y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddo yn dod o dan ofynion adran 123(2A) o Ddeddf Lywodraeth Leol 1972 (p.70) mwyach, yn yr ystyr na fydd y gofynion ynghylch cyhoeddi sydd wedi'u gosod ar yr awdurdodau hyn yn gymwys mwyach.

22. Yn yr un modd, mae adran 127 o Ddeddf 1972 yn cael ei diwygio mewn perthynas â gwaredu tir gan gynghorau cymuned. Pan fydd tir sy'n cael ei gadw mewn ymddiriedaeth i'w fwynhau gan y cyhoedd yn cael ei waredu yn unol â darpariaethau'r Mesur, caiff y tir ei ryddhau o'r ymddiriedaeth honno.

Adran 9: Gorchmynion a rheoliadau

23. Pan fo pŵer yn cael ei roi i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, mae'r adran hon yn darparu bod rhaid iddo gael ei arfer drwy gyfrwng offeryn statudol. Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau yn gallu cael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) heblaw am ddau eithriad.

24. Yn gyntaf, os yw'n cynnig diwygio'r Atodlen i'r Mesur, Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, rhaid i ddrafft o'r offeryn gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (y weithdrefn gadarnhaol).

25. Yn ail, fyddai dim gweithdrefn i'w chael mewn perthynas â gorchmynion cychwyn.

Adran 10: Pŵer i wneud rhagor o ddarpariaethau atodol a chanlyniadol etc.

26. Darpariaeth safonol yw hon, i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol a chanlyniadol er mwyn i'r Mesur fod yn gwbl effeithiol.

Adran 11: Dehongli

27. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur, ond does dim darpariaethau o sylwedd ynddi.

Adran 12: Teitl byr a chychwyn

28. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r teitl y caiff y Mesur ei adnabod wrtho yn gyffredinol. Mae'n darparu hefyd ar gyfer dod â'r Mesur i rym. Daw'r adran hon i rym ar y dyddiad y caiff y Mesur ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor. Byddai gweddill darpariaethau'r Mesur yn dod i rym yn unol â Gorchymyn (neu Orchmynion) Cychwyn a fyddai'n cael ei wneud (neu eu gwneud) gan Weinidogion Cymru.

Atodiad 2

Cwestiynau

1. Mae *Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ymgynghori â'r gymuned leol cyn gwaredu caeau chwarae. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i warediad arfaethedig a'i effaith ar iechyd a lles y gymuned leol cyn iddo fynd yn ei flaen. Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y Mesur arfaethedig? Rhowch resymau dros eich barn, a pha effaith gaiff y cynigion yn eich barn chi.

2. Mae adran 2 o'r Mesur arfaethedig yn darparu diffiniadau o "gwaredu", "awdurdod lleol", "cae chwarae" a "maes chwarae". Yn benodol, mae'r diffiniadau o "cae chwarae" a "maes chwarae" wedi'u diffinio yn nhermau arwynebedd a gweithgareddau chwaraeon penodol. **Ydych chi'n cytuno â'r prif ddiffiniadau sydd wedi'u defnyddio yn adran 2 o'r Mesur arfaethedig? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch unrhyw awgrymiadau eraill.**

3. Mae adran 3 o'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol gynhyrchu datganiad o'r effaith a fydd yn nodi natur y gwarediad arfaethedig ac yn disgrifio'i effaith ar y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer caeau chwarae yn y gymdogaeth; iechyd a lles y trigolion lleol a'r Strategaeth leol ar gyfer Iechyd a Lles. Rhaid i'r datganiad o'r effaith fod ar gael i'w archwilio am gyfnod o bedair wythnos a rhaid i hysbysiadau gael eu gosod yn y wasg leol. **Ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig y datganiad o'r effaith? Esboniwch eich barn.**

4. O dan y darpariaethau ar gyfer ymgynghori sydd wedi'u nodi yn adran 4, mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i ddod â'r datganiad o'r effaith i sylw'r ymgynghoreion statudol sydd wedi'u rhestru yn y Mesur arfaethedig ac unrhyw grwpiau eraill a all fod yn defnyddio'r caeau. Yna mae'n rhaid iddyn nhw ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno (adran 5). **Ydy'r darpariaethau ynghylch ymgynghori yn briodol? Esboniwch eich safbwynt.**

5. Mae ymgynghoreion statudol wedi'u rhestru yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig. **Ydy'r ymgynghoreion yn yr Atodlen yn briodol? A ddylai ymgynghoreion llai penodol gael eu nodi? Os felly, sut dylai'r ymgynghoreion gael eu nodi?**

6. Mae adran 6 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu cymryd ar ôl iddo benderfynu bwrw ymlaen â'r gwarediad arfaethedig. **Pan fo'r awdurdod wedi penderfynu bwrw ymlaen a chael gwared ar gaeau chwarae ar ôl ymgynghori, ydych chi'n credu bod y gofynion sy'n cael eu gosod ar awdurdod lleol yn foddhaol? Esboniwch eich barn.**

7. Mae adran 7 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i atal gwarediad yn sgil cael sylwadau, a hynny er mwyn penderfynu a gydymffurfiwyd â'r broses yn y Mesur. Os na chydymffurfiwyd â'r broses, mae Gweinidogion Cymru'n cael rhoi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol gydymffurfio. **Amlinellwch eich barn chi am y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdodau lleol.**

8. **A fydd y cynigion yn arwain at gostau ariannol i'ch sefydliad chi? Os felly, beth fydd y costau hynny (dywedwch faint fyddan nhw)?**